**Y pum Safon Broffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu**

| ADDYSGEG | | |
|---|---|---|
| MIREINIO ADDYSGU | HYRWYDDO DYSGU | DYLANWADU AR DDYSGWYR |
| Rheoli'r amgylchedd dysgu<br>Help gydag asesu<br>Helpu i ddarparu adnoddau priodol<br>Cynnwys teuluoedd yn y broses ddysgu | Pedwar diben i ddysgwyr<br>Cyd-destunau bywyd go iawn<br>Cysylltu pynciau â themâu<br>Helpu dysgwyr i wneud cynnydd | Arsylwi ar ddysgwyr<br>Gwrando ar ddysgwyr<br>Dysgwyr yn arwain dysgu<br>Helpu dysgwyr i wneud ymdrech<br>Deilliannau dysgu a lles |

| CYDWEITHREDU | DYSGU PROFFESIYNOL |
|---|---|
| Ceisio cyngor a chymorth<br>Gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol<br>Cefnogi a datblygu eraill | Darllen ac ystyried casgliadau ymchwil<br>Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol<br>Iaith a diwylliant Cymru. |

| ARLOESI | ARWEINYDDIAETH |
|---|---|
| Datblygu arbenigedd y tîm<br>Gwerthuso effaith newidiadau i addysgeg | Cymryd cyfrifoldeb personol<br>Arfer cyfrifoldeb corfforaethol<br>Arwain cyd-weithwyr, prosiectau a rhaglenni<br>Arwain digwyddiadau sy'n gysylltiedig â dysgu |

**Mae disgwyl bydd pob cymhorthydd yn ymrwymo i'r Safonau Proffesiynol a'u datblygu.**

**Gwerthoedd ac Ymagweddau Cyffredin**

- <u>Iaith a Diwylliant Cymru</u>
  Mae'r cynorthwyydd addysgu yn pwysleisio pwysigrwydd canolog hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru yn gyson. Bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i feithrin sgiliau ar draws pob maes dysgu a chymerir pob cyfle i ehangu sgiliau a chymhwysedd dysgwyr.

- <u>Hawliau Dysgwyr</u>
  Bydd anghenion a hawliau dysgwyr yn ganolog ac yn cael blaenoriaeth yn null y cynorthwyydd addysgu o wneud ei swydd. Mae'r cynorthwyydd addysgu yn arddangos disgwyliadau uchel ac ymrwymiad i gyflawniad pob dysgwr.

- <u>Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol</u>
  Mae'r cynorthwyydd addysgu yn pwysleisio pwysigrwydd canolog llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn gyson. Bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i feithrin sgiliau ar draws pob maes dysgu a chymerir pob cyfle i ehangu sgiliau a chymhwysedd dysgwyr.

- <u>Dysgwyr Proffesiynol</u>
  Mae'r cynorthwyydd addysgu yn ddysgwr proffesiynol ac mae'n ymrwymo i ymgysylltu parhaus mewn datblygu, cydweithio ac arloesi gydol gyrfa.

- <u>Rôl yn y System</u>
  Mae'r cynorthwyydd addysgu wedi ymrwymo i ddysgwyr ym mhob man ac mae'n rhan ddylanwadol o ddatblygu diwylliant addysg cydlynol yng Nghymru.

- <u>Hawl Broffesiynol</u>
  Mae gan y cynorthwyydd addysgu hawl broffesiynol i fod yn rhan o ysgol sy'n ystyried ei hun fel sefydliad sy'n dysgu. Mae gan y cynorthwyydd addysgu ymreolaeth i fod yn rhan weithredol o broffesiwn lleol, cenedlaethol a byd-eang ac mae ganddo'r hawl i annog a chefnogi gwelliant i'r ysgol er budd y dysgwyr.